

Targedau / Targets	Sut rydych wedi gweithio ar hwn / How you have worked on this	Ceir enghraifft ar / An example can be found on
Byddai ysgrifennu beirniadol yn cwestiynu rhai o'r startegaethau yn ddefnyddiol.	Wrth ystyried safbwyntiau fe wnes i ysgrifennu yn feriniadol ac i gymharu safbwynt eraill.	Trwy gydol yr aseiniad.
Ar rhai adegau mae'r ffynhonellau yn ysgafn ac yn ffynhonellau 'arlein'	Rwyf wedi defnyddio fwy o erhtyglau ac amrywiaeth o ffynhonellau nid dim ond rhai gwefannau.	Trwy gydol yr aseiniad.

Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: ble'r ydw i'n addysgu?

Elfen 2: Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth

Yn yr aseiniad hwn, cyfeirir yr ysgol fel Ysgol A. Pwrpas gwneud hyn yw i ddilyn canllawiau BERA (2011) wrth sicrhau preifatrwydd, cyfrinachedd a phroffesiynoldeb. Pentref yng ngogledd-ddwyrain dinas Abertawe yw lleoliad yr ysgol gyfrwng Gymraeg gyda 513 o ddisgyblion oedran 3-11. Mae 9.5% o blant yn derbyn prydau cinio am ddim. Mae 11% o ddisgyblion yn derbyn cymorth anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r ysgol mewn dilyniant gydag Estyn (2018). Byddaf yn trafod sut mae ysgol A yn datblygu agwedd ar ei Chynllun Datblygu ysgol ac yn adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth. Cyn ysgrifennu'r aseiniad fe wnes i gyfarfod efo staff yr ysgol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r Cynllun Datblygu Ysgol a sut ydyn nhw yn gweithredu'r cynllun.

Y ddarpariaeth dewiswyd trafod yn yr aseiniad hwn yw Technoleg yn yr ysgol a sut mae'r ysgol yn sicrhau bod pob grŵp blwyddyn yn cwrdd â'r gofyniad statudol ar gyfer darpariaeth e-diogelwch. Bwriedir trafod sut mae'r ysgol yn sicrhau bod ystod disgrifiadau dysgu cael eu haddysgu ar draws yr ysgol. Gan ystyried y MDaPh rwyf yn ystyried, dywed Llywodraeth Cymru(2020) "*Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn ein byd modern.*" Mae'r ysgol yn amlwg wedi ystyried hyn gyda'r camau gweithredu ydynt wedi'i gymryd i sicrhau hyn. Gwelir yr athrawon bod defnyddio technoleg yn rôl enfawr o ddydd i

ddydd disgyblion ac wrth iddynt barhau i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol p'un yw ei gyrfa mae'r disgyblion yn dewis. Mae deall y byd o'i amgylch yn hanfodol a dyma'r rheswm mae'r ysgol yn gweithio tuag at sicrhau lefelau cadarn o ddealltwriaeth a sgiliau o thechnoleg. Mae technoleg wedi datblygu'r holl broses o ddysgu..Mae addysg wedi mynd o goddefol ac adweithiol i ryngweithiol ac ymosodol (Raja,2018). Dywed Mustapha et al (2020) bod technoleg sy'n cael ei defnyddio yn yr ystafell ddosbarth yn hynod fanteisiol yn cefnogi'r dysgwyr i werthfawrogi'r gwersi sy'n cael eu dysgu. O brofiad, gwelwyd bod y dysgwyr efo diddordeb wrth dangos cyflwyniadau gan ddefnyddio technoleg. Er bod yna effaith negyddol tuag at dechnoleg megis sgiliau cymdeithasol. Mae sawl disgybl yn defnyddio technoleg i gymdeithasu yn lle yn wyneb i wyneb sydd yn effeithio sut mae plant yn ymgysylltu ag plant ac oedolion eraill. Gall defnyddio technoleg hefyd cael effaith ar berthnasodedd y disgyblion, problemau iechyd ar allu i ffocysu (CNAssosiates 2020). Gan fod yr ysgol wedi ystyried yr effeithiau negyddol yma, fe wnaeth yr ysgol cynllunio camau y byddaf yn nodi isod er mwyn osgoi'r effeithiau yma gan sicrhau bod y gwersi yn effeithiol ac yn berthnasol i wersi.

Ar ôl trafod gyda'r athrawes a darllen y cynllun datblygu ysgol, cafwyd persbectif clir o'r hyn mae'r ysgol yn ceisio datblygu. Un o'r camau yw sicrhau bod pob grŵp dosbarth yn cwrdd â'r gofyniad statudol ar gyfer darpariaeth e-ddiogelwch. Fel ndoir as disgrifiadau dysgu Llywodraeth Cymru(2020) "*Rwy'n gallu esbonio pwysigrwydd diogelu'r dechnoleg rwy'n ei defnyddio a phwysigrwydd gwarchod safon fy nata*". Bydd pob grŵp blwyddyn yn mapio'r gwersi ar HWB. Mae 1 o 6 ohonynt yn cael ei ddysgu pob hanner tymor. Yn ffodus iawn, cefais y cyfle i fynychu un o'r gwersi ac i weld sut mae'r disgyblion yn ymateb a chynnwys y wers. Yn ogystal mae polismones y dod i gynnal sesiynau e-ddiogelwch gyda

disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'n rhaid i'r disgyblion cymryd rhan mewn dathliadau e-ddiogelwch sef diwrnod sydd yn hybu e-diogelwch ar draws yr ysgol. Fel y gwelir, mae'r camau yma yn unig ar gyfer sicrhau diogelwch we i'r disgyblion sydd yn broblem yn y genhedlaeth yma (gwelir isod). Budd o wneud hyn hefyd yw nad oes unrhyw gost wrth weithredu'r cam. Mae'r ysgol yn rhedeg clwb digidol lle mae'r disgyblion yn gallu dysgu a datblygu sgiliau newydd ac i gymdeithasu a phobl sydd ar un diddordeb. Mae'r clybiau yn cael ei gynnal ar ôl ysgol. Ar gyfer datblygiad gwybyddol, mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau 'STEM' i'r disgyblion sydd yn annog y disgyblion i ddilyn cyfarwyddiadau yn annibynnol i greu cynnyrch megis cas bensil. Yn ogystal, mae'r ysgol yn defnyddio 'technocamps' sydd yn rhoi ystod o dasgau a heriau i'r disgyblion i wneud gan ddefnyddio sgiliau a rhaglenni gwahanol. Ar sawl achlysur mae'r ysgol wedi trefnu gweithwyr 'technocamps' i ddod mewn i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion.

Pwysleisia Prifysgol Abertawe(dim dyddiad) yr effaith positif mae technocamps wedi cael ar ysgolion a disgyblion. Ers 2011, mae Technocamps wedi ymgysylltu â dros 60,000 o fyfyrwyr yng Nghymru - 8% o boblogaeth Cymru heddiw rhwng 5 a 24 oed a gyda chydbwysedd bron iawn rhwng y rhywiau. Maent wedi darparu rhaglen hyfforddiant 'Technoteach' blwyddyn o hyd i dros 100 o athrawon ledled Cymru sydd â diffyg sgiliau technoleg. Yn amlwg, mae rhan sylfaenol o'r broses dysgu a MDaPh. O brofiad yn Ysgol A, mae'r disgyblion yn mwynhau gweithgareddau Technocamps sydd yn dangos yr effaith cadarnhaol mae'n cael ar ddisgyblion. Y nod ar gyfer y disgrifiadau dysgu i'r disgyblion yw "*defnyddio meddylfryd dylunio i brofi a mireinio fy mhenderfyniadau dylunio, heb ofni methu.*" (Llywodraeth Cymru,2020). Ar gyfer gweithgareddau e-ddiogelwch mae un o'r athrawon yn gyfrifol

bod pob dosbarth yn gwneud gweithgaredd sydd yn hybu diogelwch ar-lein. Pwysleisia Llywodraeth Cymru(2020) arfer da sef ei fod yn bwysig bod yr ysgol yn dilyn polisïau diogelwch ar-lein ac yn ei werthuso a monitro'n gyson. Dywed bod angen pwysleisio “*polisïau diogelwch ar-lein sy'n gysylltiedig â pholisïau eraill neu'n rhan ohonynt, megis polisïau diogelu ac amddiffyn plant, polisi ymddygiad dysgwyr (gan gynnwys gwrth-fwlio), cod ymddygiad staff.*” Yn gyffredinol, mae'n bwysig bod plant yn ymwybodol o'r heriau sydd yn gallu codi o fod ar-lein. Mae Ysgol A wedi ystyried yr arfer dda ac wrth werthuso'r cynllun datblygu ysgol, maent yn adfyfrio hyn wrth gynllunio camau gweithredu. Fe ddadleuodd Raja(2018) bod technoleg yn dirywio sgiliau ysgrifenedig ac mae disgyblion yn dibynnu yn fwy ar dechnoleg yn lle defnyddio'i sgiliau ysgrifennu. Cytunaf efo hyn i raddau, gan o brofiad, mae sawl disgybl yn gofyn i ddefnyddio gliniadur i gyflwyno gwaith ysgrifenedig neu iaith gan ei bod yn gweld yn dechneg sydd yn gyflymach ac yn fwy hwylus iddynt nag ysgrifennu. Felly mae hyn yn rhywbeth i ystyried yn Ysgol A ac yn y dyfodol. Sut mae'n bosib taclo'r broblem yma? Ond, ar y llaw arall, ddadleuodd Mutapha et al (2020) bod technoleg yn caniatáu i ddisgyblion i ddysgu mewn amgylchedd serenog. Felly, er dweud y ddau safbwynt yma, mae ,adroddiad Estyn Ysgol A (2018) yn pwysleisio bod athrawon yn cynllunio'n fedrus i ddatblygu medrau TGCh disgyblion drwy amrywiaeth o brofiadau dysgu buddiol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus er mwyn datblygu eu sgiliau ymhellach wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae ysgol A yn hybu e-ddiogelwch yn aml ar draws yr hanner tymor. Mae'r cydlynnydd technoleg wedi nodi ar y cynllun bod rhaid i bob dosbarth rhoi gwers e-ddiogelwch i'r disgyblion pob hanner tymor. Rhai o'r pryderon sydd yn gallu digwydd wrth i blant fod ar-lein yw bod yn agored i gynnwys anghyfreithlon, amhriodol, niweidiol neu hiliaeth. Gall cysylltu

gydag eraill neu hysbysebion fod yn beryg, ymddygiad ar-lein sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o niwed, neu achosion. Mae gemau sydd ag oed rhy hen yn gallu fod yn beryg neu yn broblem sydd yn codi yn aml (Llywodraeth 2023). Un elfen rwyf wedi profi mae'r ysgol yn defnyddio er mwyn hybu diogelwch yn aml yw ôl troed sef map olion traed sydd yn cofnodi'r gweithgareddau sy'n profi bywydau unigolion ar-lein (Blue et al 2018). Gall hwn fod yn un o'r rhyngwrwyd, gan gynnwys hanes chwilio, gwasanaethau ar-lein, fforymau, blogiau, a chyfryngau cymdeithasol (Park, 2017). Felly, beth mae'r ysgol yn ceisio targedu yw dysgu hyn i'r disgyblion wrth gynllunio gweithgareddau gwahanol. Un tasg effeithiol gwelais ar fy ymarfer dysgu oedd y disgyblion yn ymchwilio i wahanol rwydweithiau cymdeithasol ac i roi'r logo mewn siâp olion traed gan nodi'r camau i gadw'n ddiogel sydd eisoes wedi esbonio gan yr athrawes. Mae'r ysgol hefyd yn ceisio atal seiberfwlio. Mae yna amcangyfrif o'r nifer o blant sy'n cael eu heffeithio gan seiberfwlio yn amrywio rhwng 6-25%+, yn dibynnu ar fesurau, ac mae'r rhesymau dros weledigaeth yn amrywiol (Gweithdrefnau diogelwch Cymru 2021). Eto, mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau a gwersi sydd yn dysgu'r disgyblion o seiberfwlio a sut i osgoi hyn. Mae un mewn pump o blant rhwng yr oed 10 a 15 yng Nghymru a Lloegr wedi profi o leiaf yn fath o seiberfwlio ac mae'r niferoedd yma yn cynyddu (Kulevska 2023). Mae'r cydlynnydd yn sicrhau bod y dosbarthiadau eraill yn gwneud sesiynau esbonio beth yw seiberfwlio a beth i'w wneud os mae rhywun yn derbyn hyn ei hun. Yn olaf, trafodir y clybiau mae'r ysgol yn trefnu er mwyn rhoi'r cyfleodd i'r disgyblion. Dywed arweinyddes yr ysgol sydd yn trefnu gweithgareddau digidol a thechnoleg ei bod wedi trefnu bod yna clwb digidol yn parhau am bedwar deg pum munud ar ôl ysgol. Pwrpas rhedeg y clwb oedd rhoi cyfle i ddisgyblion sydd ar un diddordeb i gymdeithasu ac ar gyfer y disgyblion sydd heb gliniaduron neu ipads

adref. Mae 9% o deuluoedd sydd a plant heb gliniadur, cyfrifiadur neu tabledi adref ac nid oeddent yn gallu cael mynediad i ddysgu ar - lein (Russell, 2022). Nod yr ysgol oedd sicrhau cyfleodd cyfartal i bawb gan roi'r cyfle iddynt gael gwersi technoleg ac i ddefnyddio gliniadur i addysgu a chyflwyno gwaith ar draws sawl MDaPh. Targedir hyn sgiliau trawscwriclaidd hefyd. Wrth fynychu ar fy ymarfer dysgu fe wnes i roi sawl tasg i'r disgyblion gwblhau ar y gliniaduron neu ipad megis 'iVideo', creu poster, creu pwnt pŵer a sawl tasg arall ar J2E. Y manteision o wneud hyn yw mai'n sicrhau bod disgyblion yn awyddus i ddysgu. Mae'n helpu disgyblion trosglwyddo'r sgiliau ar gyfer y dyfodol(Raja 2018). Yr anfanteision o hyn yw rydym yn annog disgyblion i ddefnyddio gliniadur yn lle ysgrifennu sydd hefyd yn gallu achosi prinder o gymdeithasu gyda'i chyfoedion (Alghamdi, dim dyddiad). Pwysleisia Dewey(1958) bod angen annog disgyblion i drafod teimladau o bwnc gyda chyfoedion. Ar ôl arsylwi'r clwb digidol, fe welais y disgyblion yn gwneud hyn wrth gydweithio gyda'i gilydd. Yr unig anfantais o hyn yw wrth i'r clwb cynyddu o nifer o ddisgyblion sydd yn mynychu, mae diffyg lle yn bryder gan mai dwy athrawes sydd yn cynnal y clwb yn ei hystafelloedd dosbarth. Er dweud hyn, mae'n amlwg bod yr ysgol wedi ytyried y disgrifiadau dysgu wrth gynllunio yn effeithiol fel y nodaf trwy gydol yr aseiniad.

Gan ystyried y cynllun datblygu ysgol, mae'n amlwg bod yr ysgol yn ceisio hybu'r pwysigrwydd o ddefnyddio technoleg yn ddiogel, yn rhoi'r cyfleoedd cyfartal i bawb, yn rhannu syniadau ac yn gweithio fel ysgol gyfan. Dywed Llywodraeth Cymru (2018) mai pwrpas cynllun datblygu ysgol yw nodi'r camau y bydd ysgol yn eu cymryd i wella deilliannau dysgwyr. Dywed staff Ysgol A ei bod yn gwerthuso'r cynllun pob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd targedau blaenorol ac yn dechneg o werthuso'r hyn ydynt wedi'i gwneud yn ystod y flwyddyn.

Derbynnir yr ysgol cyllid er mwyn gallu darparu y cyfleodd yma i ddisgyblion, felly credaf fyddai defnyddio fwy o'r cyllid yn gallu prynu fwy o bethau technolegol newydd i'r ysgol, i drefnu fwy o ymwelwyr addysgiadol i roi hyfforddiant i'r staff ar ysgol ar raglenni a fydd yn fudd iddynt. Un adran lle fyddai'r ysgol yn gallu datblygu yw'r hyn ydynt yn ei wneud wrth ddefnyddio technoleg yn yr ysgol. Wrth ddweud hyn, rwyf yn golygu, gall y disgyblion gwneud tasgau ar draws sawl maes dysgu a phrofiad wrth ddefnyddio technoleg, er enghraifft ni welais lawer o weithgareddau tu allan neu amrywiol wrth ddefnyddio technoleg.

Pwysleisia Estyn(2020) arfer dda gan nodi strategaeth mae ysgol yn' Casnewydd yn defnyddio sef y 'sgrin werdd' ac o ganlyniad dywed Estyn yr oedd lefel eu hymgysylltiad yn uchel ac nid oeddent yn caniatáu eu hun i gael ei sylw wedi tynnu. Mae'r ysgol wedi cynnal y newydd-deb o ddefnyddio'r sgrin werdd. Beth bynnag yw'r dasg neu weithgaredd, mae'n rhoi ysgogiad ar unwaith i ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr yn y dasg (Estyn 2020). Byddai'r dechneg yma yn effeithiol wrth i mi barhau gyda'm yrfa broffesiynol. Wrth ystyried sut mae gwerthuso cynllun datblygu ysgol A wedi fy effeithio yn y dyfodol, byddaf yn sicrhau fy mod i yn cymryd cyfrifoldeb dros annog gwelliant fy swydd yn y gorffennol. *"Un ffactor allweddol i wella ysgol yw sicrhau bod y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol byrdymor a thymor hir."*(Llywodraeth Cymru 2020) Pwysleisia Llywodraeth Cymru'r pwysigrwydd o sicrhau bod y bobl gywir yn y lle cywir er mwyn datblygu cynllun ysgol. Wrth ystyried fy sgiliau I, rwyf yn hyfforddwraig ffitrwydd am sawl mlynedd felly mi fyddaf yn ceisio hybu pwysigrwydd iechyd a lles mewn ysgolion. Bwriedir i fynychu ar gyrsiau gwahanol i ddatlybu'm sgiliau yn ehangach ond yn bwysicaf 'oll yn barod i gyfrannu tuag at gynlluniau datblygu ysgol er mwyn galluogi gwelliant. I gefnogi'r safbwynt rhoddwyd yn uwch, noda Mizell (2010)

bod athrawon newydd yn profi sefyllfaoedd a materion anghyfarwydd fel, y cwrwllwm, diwylliant ysgol a gweithrediadau, paratoi a gweinyddu profion, safonau'r wladwriaeth, cysylltiadau rhieni a rhyngweithio ag athrawon eraill. Cytuna BERA(2014) gyda'r safbwynt drwy ddweud bod cyfrifoldeb gan athrawon sydd newydd gymhwyso a trwy gydol ei phrofiad i gymryd rhan mewn ymchwil ac ymholi, gan gydweithio â chydweithwyr mewn ysgolion a cholegau eraill ag aelodau o'r gymuned ymchwil ehangach. Yn ogystal â dysgu drwy ymchwil, yr wyf wedi dysgu wrth ddysgwyr eraill wrth ddefnyddio rhaglenni technoleg ar hwb ac fel dywed Dewey(1963) mae'n rhaid i ni fod yn barod i ddysgwyr yn wersi ein hunain and i gydnabod yr hyn ydynt wedi dysgu o ddisgyblion.

Rhestr Cyfeirnod

Alghamdi, Y (dim dyddiad) *Negative Effects of Technology on Children of Today*. Oakland University. Research Gate. (cyrchwyd 14 Mai 2023)

Bates,B (2105) *Learning Theories simplified*.

Blue, J a Lunney, T (2018) *Digital Footprints: Your unique identity*. Research Gate. (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

BERA(2014) *Research and the teaching profession*. (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

BERA(2011) *ETHICAL GUIDELINES FOR EDUCATIONAL RESEARCH*. (Cyrchwyd: 25 Ebrill 2023)

Estyn (2020) *The impact of ICT on pupils' learning in primary schools*. Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/The%20impact%20of%20ICT%20on%20pupils%20C3%25A2%25E2%2582%25AC%25E2%2584%25A2%20learning%20in%20primary%20schools%20-%20July%202013.pdf>

Estyn (2018) Adroddiad Ysgol A. Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Inspection%20report%20Ysgol%20A%20Adroddiad%20Cymru%202018.pdf> (Cyrchwyd 14 Mai 2023)

Estyn (2018) Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6702036> (Cyrchwyd: 25 Ebrill 2023)

Gweithdrefnau digoelu Cymru(2021) *Safeguarding children from online abuse*. Ar gael: <https://www.diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p6/> (Cyrchwyd: 14 Mai 2023)

Llywodraeth (2023) *How to promote and teach online safety in schools?*

Ar gael: <https://educationhub.blog.gov.uk/2023/02/01/how-we-promote-and-teach-online-safety-in-schools/> (Cyrchwyd 14 Mai 2023)

Llywodraeth Cymru (2020) *Disgrifiadau Dysgu*. Ar gael:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/disgrifiadau-dysgu/> (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

Llywodraeth Cymru (2018) *Cynlluniau Datblygu Ysgol*. Ar gael:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

Kulevska, A(2023) *Cyberbullying statistics for the UK*. Ar gael:

<https://cybercrew.uk/blog/cyberbullying-statistics-uk/> (cyrchwyd: 14 Mai 2023)

Mizell,H(2017) *Why professional development matters*. Learning

forward. Ar gael: <https://learningforward.org/wp-content/uploads/2017/08/professional-development-matters.pdf>.

(Cyrchwyd 15 Mai 2023)

Mutapha et al (2020) *Factors Affecting the Utilization and Adoption of Technology in Education*. (Cyrchwyd 14 Mai 2023)

Raja J, (2013) *Impact of modern technology in education*. Phoenix

Research publishers. (Cyrchwyd 14 Mai 2023)

Russell, C (2022) *Digital Parenting*.Vodafone..Ar gael:

<https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/707a71c9-ee09-48de-901f-641d241699dc/digital-parenting-magazine-10th-edition.pdf>

Park, M (2017) “*AR is on the verge of transforming the human-computer relationship*”. <https://venturebeat.com/2017/10/30/ar-is-onthe-verge-of-transforming-the-human-computerrelationship/> (Cyrchwyd 14 Mai 2023)

Prifysgol Abertawe (dim dyddiad) *Transforming digital education in Wales*. Ar gael: <https://www.swansea.ac.uk/compsci/research-and-impact/technocamps-digital-education-wales/> (cyrchwyd: 14 Mai 2023)